



Gwers 19

Y Brenin Dafydd



Cyfres Stori Duw

1 Samuel 16 – 17.

Nod:

Dysgu fod Duw yn edrych ar yr hyn sydd yn y galon, nid beth sydd ar y tu allan.

Adnodau:

1 Samuel 16 – 17

Cefndir:

Er bod Duw wedi gwrthod Saul fel brenin, fe arhosodd yn frenin am nifer o flynyddoedd. Yn y cyfamser anfonodd Duw Samuel i eneinio un arall yn frenin– dyn oedd yn caru Duw (1 Sam 13:14). Anfonodd Duw Samuel i eneinio Dafydd, mab Jesse, a oedd ond yn fachgen ifanc ar y pryd. Yn 1 Samuel 16 rydym yn darllen sut y dewisodd Duw Dafydd o holl feibion Jesse, trwy edrych ar ei galon, nid ei edrychiad allanol.

Os oedd Saul yn cael ei nodweddu fel un a oedd ofn pobl yn hytrach na Duw, mae Dafydd yn cael ei nodweddu gan ei angerdd dros enw da Duw a'i ffydd mawr ynddo.

Gweithgaredd:

Ar ddarn o bapur mawr gwnewch lun o goron. Beth mae'r dosbarth yn meddwl ydi nodweddion brenin da? Ysgrifennwch yr atebion ar y papur o amgylch y goron. Dechreuwch drafodaeth fer am y rhinweddau yma. Gallwch edrych ar Deuteronomium 17:14–20, a thrafod ymhellach beth mae Duw yn ei gyfri'n frenin da.

Darllen yr adnodau:

Darllenwch 1 Samuel 16:1–3, 6–13. Trafodwch y cwestiynau canlynol:

- Pam wnaeth Duw wrthod brodyr hŷn Dafydd? (ad7) Mae Duw yn gweld beth sydd yn y galon.
- Beth yw'r disgrifiad o Dafydd yn y darn yma? Beth oedd ei waith? (ad 11–12)

Gweithgaredd 1:

Os oes digon o bobl yn y dosbarth gallwch ofyn iddynt lunio llinellau yn ôl trefn amrywiol, ee taldra, dyddiad pen-blwydd, oed, lliw llygaid. Gallwch ei wneud ychydig yn anoddach drwy ychwanegu rheolau megis, dim siarad, defnyddio dwylo yn unig neu gau llygaid! Roedd brodyr Dafydd wedi eu rhoi mewn trefn o flaen Samuel, dewisodd Duw yr un lleiaf, ieuengaf yn y teulu i fod yn frenin ar Israel.

Gweithgaredd 2:

Dewch ag 1 neu 2 goconyt i'r dosbarth gyda chi. Daliwch y coconyt i fyny, a gofyn os ydy'r dosbarth wedi gweld un o'r blaen neu yn gwybod beth ydyw? Cyflwynwch y syniad fod coconyt yn bethau hyll ar y tu allan, ac o'r edrychiad cyntaf mae'n anodd credu fod bwyd maethlon a blasus oddi mewn i gragen galed a diflas. Os y teimlwch hi'n briodol, ac yn ddiogel, gallwch adael i'r grwpiau agor y coconyt a bwyta'r cynnwys. Cofiwch wneud yn siŵr, eich bod yn goruchwyllo wrth iddynt agor y gneuen, a sicrhau hefyd nad oes gan unrhyw un alergedd i goconyt.

Amser Addoli:

Rydym wedi gweld heddiw fod Duw yn edrych ar beth sydd yn ein calonnau ni, nid ar y tu allan, neu beth ydym ni'n ei wneud. Gofynnwch i'r dosbarth a ydynt yn dal i feddwl fod Cristnogaeth yn golygu gwneud pethau da, neu drïo plesio Duw? Dangosodd Dafydd nad beth sydd ar y tu allan sy'n cyfrio i Dduw, ond beth sydd yn ein calonnau. Dydi Duw ddim yn gofyn i ni dreulio'n bywydau yn trio bod yn dda, ond yn hytrach yn gofyn i ni roi ein cred a'n bywyd i Iesu a'i ddilyn o drwy ffydd. Aeth Dafydd ymlaen i wneud pethau rhyfeddol drwy ymddiried yn Nuw. Gall Duw wneud pethau rhyfeddol hefyd trwom ni, os gwnawn ni ymddiried ynddo a'i ganlyn.

Gorffennwch y wers drwy ofyn i'r bobl ifanc i feddwl yn dawel faint o amser ac arian maent yn eu gwario yn ceisio edrych yn dda ar y tu allan, (ymarfer corff, dillad, ymbincio). Ac yna ystyried faint o amser mae nhw'n ei wario yn edrych ar eu calon (darllen y Beibl, gweddio, addoli Duw). Gweddiwch y bydd y dosbarth i gyd yn sylweddoli mai'r galon a'n perthynas â Duw sydd bwysicaf, ac y daw pawb yn fwy fel Dafydd – gyda chalon llawn cariad at Dduw.